

2017/18

Datganiad Gwerth am Arian





Sicrwydd i chi

Croeso i Ddatganiad Gwerth am Arian 2017/18, sy'n nodi'r ffordd mae Cartrefi Cymorth Merthyr yn gwario'n briodol ac yn ddoeth. Drwy'r datganiad hwn, rydym yn rhoi sicrwydd i chi bod Cartrefi Cymoedd Merthyr yn sicrhau Gwerth am Arian.

Mae Gwerth am Arian yn golygu mwy na dim ond costau a gwariant. Mae hefyd yn golygu gweithio mor effeithlon, effeithiol, darbodus a theg â phosibl, er mwyn i ni allu gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hynny yn ein galluogi i gynnig gwasanaethau gwych i denantiaid, ac i ddwyn budd i'r gymuned ehangach.

Eleni, mae ein hymrwymiad i Werth am Arian wedi cryfhau, wrth i'r Corff Democrataidd ddatblygu Strategaeth Gwerth am Arian, sef 'Yfory Cryf'. Mae'n nodi'r egwyddorion y dylai Cartrefi Cymoedd Merthyr eu dilyn. Gan ddefnyddio hynny, byddwn yn dal i ystyried cyfleoedd i wella gwasanaethau, gan fynd ati i gynnwys tenantiaid a gweithwyr i wneud yn siŵr ein bod yn dal i sicrhau Gwerth am Arian.

Diolch,

Fran a Nicola
Cadeirydd y Corff Democrataidd a Chadeirydd y Bwrdd

Cyflwyniad

Mae ein Corff Democrataidd, y Bwrdd a'n Haelodau wedi bod yn gweithio i ddatblygu dull newydd o fonitro a gwerthuso Gwerth am Arian drwy gydol y flwyddyn. Gyda'i gilydd, maent wedi cytuno ar Gerdyn Sgorio Cytbwys newydd a 7 Rheol Aur newydd ar gyfer Gwerth am Arian, a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Mae ein Rheolau Aur yn ein galluogi i werthuso ein perfformiad blynyddol o ran economi (darbodaeth), effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ecwiti (tegwch). Mae ecwiti yn prysur ddod yn rhan hanfodol o Werth am Arian, ac roedd ein Corff Democrataidd am ei gydnabod fel mesur.

Mae'r Corff Democrataidd yn monitro Gwerth am Arian ar ran ein Haelodau bob blwyddyn ac maent wedi cymeradwyo Datganiad Gwerth am Arian 2017/18, gan ddod i'r casgliad bod CCM wedi sicrhau Gwerth am Arian yn ystod 2017/18. Dangosir y canlyniadau dros y dudalen.



Economi



Effeithlonrwydd



Effeithiolrwydd



Ecwiti

Ein perfformiad ar gyfer 2017/18

Byddwn bob amser yn gosod rhent fforddiadwy



Fe wnaethom benderfynu y **dylai ein rhent targed fod yn seiliedig ar 28% o'r enillion cyfartalog** h.y. rhent byw



Fe wnaethom symud i **flwyddyn rent 52 wythnos** i helpu tenantiaid ar Gredyd Cynhwysol

Byddwn bob amser yn cadw ein tenantiaid yn ddiogel



Sefydlwyd **dau fforwm diogelwch tenantiaid**



Fe wnaethom gyflawni **achrediad iechyd a diogelwch ISO18001**

Byddwn bob amser yn gwarchod ein hamgylchedd



Dros 1,000 tonnell o ddeunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu



76 cartref gyda chladin insiwleiddio wal allanol

Byddwn bob amser yn trin staff a thenantiaid yn deg



6% – Bwlch cyflog rhwng y rhywiau, o blaid merched



420 o denantiaid wedi cael budd o fuddion ychwanegol a oedd werth £543,000 y flwyddyn drwy'r tîm uchafu incwm



88% o amodau tenantiaeth a dorwyd wedi'u datrys heb unrhyw gamau pellach

Byddwn yn adolygu elfennau sy'n arwain at wariant mawr – h.y. dros £100,000 y flwyddyn



£56,400 wedi'i arbed drwy baratoi a rhoi 69 hysbysiad a chynrychioli ein hunain mewn 3 gwrandawriad



Fe wnaethom arbed £100,000 y flwyddyn wrth adnewyddu ein hyswariant.

Byddwn bob amser yn buddsoddi yn ein heconomi leol



£41,297 wedi'i ddyfarnu i grwpiau lleol gan ein panel Grantiau a Nawdd – tenantiaid a gweithwyr



25 wythnos o leoliadau prentisiaid wedi'u diogelu gydag Y Prentis, fel rhan o'n hadeilad swyddfa newydd gydag JEHU

Byddwn bob amser yn datblygu ein staff mewnol, yn ystyried cynlluniau olyniaeth, ac yn cynnig prentisiaethau a lleoliadau gwaith



16 lleoliad gwaith wedi'u cynnig, gyda 4 yn diogelu contractau cyfnod penodol



78 unigolyn wedi'u cyfeirio at wybodaeth am gyflogaeth drwy ein prosiect RISE

Rheol #1

Byddwn bob amser yn gosod rhent fforddiadwy

Credwn mai dyma un o gerrig sylfaen gwerth economaidd am arian. Mae popeth yn dechrau gyda gosod rhent y gall tenantiaid ei fforddio, er mwyn talu am gost y gwasanaethau a ddarparwn. Eleni, penderfynwyd canolbwyntio ar fforddiadwyedd. Gwnaed hyn trwy gyfres o ymgynghoriadau gyda'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd a arweiniodd at fabwysiadu'r model Joseph Rowntree ar gyfer rhent byw.

Mae ein rhenti bellach yn seiliedig ar 28% o'r enillion preswylfa cyfartalog cyhoeddedig ar gyfer Merthyr Tudful. Mae hyn wedi golygu bod ein rhenti targed ar gyfer fflatiau un ystafell wedi gostwng 6% o flwyddyn i flwyddyn ac roedd ein rhenti targed ar gyfer eiddo 1 a 2 ystafell wely gyda chynnydd rhent a oedd yn is na 4.5% ar gyfer 2018/19. Mae hwn yn newyddion gwych i denantiaid sengl/rhieni unigol mewn eiddo llai sy'n ei chael hi'n anoddach i fforddio rhedeg cartref.

Gofynnwyd i Aelodau Tenant a fyddent yn cytuno i symud i flwyddyn rent 52 wythnos. Roeddem yn teimlo y byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r tenantiaid hynny sy'n symud i Gredyd Cynhwysol, ac i'r rheini sy'n talu trwy ddebyd uniongyrchol. Roedd hyn yn newid sylweddol i ni o safbwynt ymarferol, gan mai'r trefniant blwyddyn rent 48 wythnos oedd ar waith cyn y trosglwyddo. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y tenantiaid i hynny, a gwnaed y newid ar 1 Ebrill 2018.



**Blwyddyn
rent 52
wythnos**

Fe wnaethom symud i flwyddyn rent 52 wythnos i helpu tenantiaid sydd ar Gredyd Cynhwysol



Rheol #2

Byddwn bob amser yn cadw ein tenantiaid yn ddiogel

Yn dilyn y tân trychinebus yn Nhŵr Grenfell ym mis Mehefin 2017, gwnaethom adolygiad cynhwysfawr o'n gweithdrefnau diogelwch tân ar draws ein holl fflatiau. Yn amlwg, fe wnaethom ganolbwyntio'n helaeth ar Lys Sant Tudful (ein hunig floc uchel) gan sicrhau bod y cladin yn ddiogel; y gallem wagio'r adeilad a'n bod yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân. Cawsom ein cymeradwyo ar ein gweithdrefnau gan y gwasanaeth tân. Sefydlwyd Fforwm Diogelwch Tenantiaid (TSF) a Phwyllgor Diogelwch Tân Preswylwyr gennym ar ôl tân Grenfell. Mae holl aelodau'r TSF wedi pasio eu harholiadau Iechyd a Diogelwch Lefel 2.


Cawsom achrediad ISO18001 ar gyfer Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn dangos ein bod yn gweithredu arferion gorau ym mhob agwedd ar Iechyd a Diogelwch.

Mae ein Rheolwr Iechyd a Diogelwch wedi'i achredu i ddarparu hyfforddiant. Yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi defnyddio hyfforddwyr allanol. Trwy gynnal hyfforddiant yn fewnol rydym wedi arbed tua £15,000. Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant Iechyd a Diogelwch i Grŵp Sefydliad Gellideg yn rhad ac am ddim, gan arbed £2,100 iddynt.

Mae ein Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi bod yn gweithio'n galed eleni, ac mae nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng tua 27% o un flwyddyn i'r llall. Hefyd, gwnaeth y tîm 8 atgyfeiriad cymorth dioddefwyr trwy gynllun newydd eleni mewn partneriaeth ag Awdurdod Heddlu De Cymru, a fydd yn darparu mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, e.e. larymau panig, cloeon ychwanegol ac ati.

Lansiwyd ein prosiect gerddi agored gennym, gan ganiatáu i denantiaid gynnwys ardaloedd ar flaen eu cartrefi a oedd yn gynllun agored yn flaenorol, i greu mannau y mae modd eu hamddiffyn. Crëwyd 12 o erddi tu blaen gyda'n tîm mewnol ac rydym yn bwriadu gwneud o leiaf 16 yn 2018/19.

Roedd Jehu wedi cynnwys disgyblion blwyddyn 6 o Ysgol Gynradd Coed y Dderwen mewn ymweliad â'r safle a sesiwn Iechyd a Diogelwch yn ein safle datblygu prif swyddfa yng Ngellideg.



Rheol #3

Byddwn bob amser yn gwarchod ein hamgylchedd

Mae tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem barhaus ar draws y fwrdeistref gyda 89 o ddigwyddiadau ar wahân. Eleni, rydym wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth nodi'r sawl sy'n euog a phan fo angen, wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol. Rydym wedi datrys 38 o achosion o dipio anghyfreithlon gan ddefnyddio camerâu cudd ac rydym wedi cyhoeddi 4 anfoneb o £500 i adennill costau symud gwastraff.

Fel sefydliad, rydym yn ailgylchu gwastraff ein swyddfa a gwastraff adeiladu lle bynnag y bo modd.

Gyda'i gilydd, ailgylchwyd 1,045 tonnall o ddeunyddiau adeiladu yn ystod 2017/18, ac mae'r Tîm Amgylcheddol wedi arbed tua £4,000 trwy ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu yn hytrach na safleoedd tirlenwi.

Yn 2017/18, fe wnaethom osod cladin wal allanol i 76 eiddo a chwblhawyd 112 o waith inswleiddio ychwanegol i atigau gennym. Dylai'r mesurau hyn leihau faint o nwy/trydan a ddefnyddir i wresogi'r cartrefi hyn a lleihau biliau ynni ein tenantiaid.


Cafodd 2 sgip ei lenwi

yn ystod y gwaith casglu sbwriel a chlirio gwastraff diangen a drefnwyd yn Nhrelewis, ac fe ymunodd 15 tenant â ni.

Fe wnaethom drefnu sesiwn casglu sbwriel a chlirio gwastraff diangen ar Stad Trelewis (Nant Gwyn, Mandeg a West View Crescent), gan ddarparu 2 sgip. Cymerodd 15 o denantiaid ran yn hyn. Cynhaliom hefyd 2 weithdy i gael gwybod am faterion lleol ynghylch tipio anghyfreithlon, sbwriel a rhwystrau i ailgylchu. Sefydlwyd gweithgor ar gyfer Gurnos, yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, FTaclo Tipio Cymru, Groundwork, Cyfoeth Naturiol Cymru, CBSMT a Llywodraeth Cymru. Symudwyd pot tyfu llysiau, o Rydfach

i Horeb Close gan arbed tua £400.

Mae gan ein prif swyddfa newydd baneli ffotofoltäig i gynhyrchu trydan a phwynt gwefru ceir trydan y gall staff ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim yn ystod y dydd. Byddwn yn adrodd yn ôl ar y gwerth am arian a gynhyrchir gan y mesurau hyn yn y Datganiad Gwerth am Arian y flwyddyn nesaf.



Rheol #4

Byddwn bob amser yn trin staff a thenantiaid yn deg ac yn gyfartal

Roedd ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2017/18 yn 6% o blaid merched, sy'n gyflawniad enfawr o'i gymharu â sefydliadau eraill, yn enwedig gan fod y mwyafrif o'n gweithwyr yn ddynion (68%).

Fe wnaethom hefyd benderfynu cyflwyno system bandio cyflog i ddileu unrhyw faterion cyflog cyfartal posibl. Mae'r holl staff (ac eithrio'r Tîm Rheoli Gweithredol) wedi'u symud i fandiau cyflog o gyflogau penodol. Fe wnaed hyn drwy ymgynghori â'r gweithlu, a chynhaliwyd pleidlais Undeb Llafur. Sgoriwyd pob swydd yn erbyn cyfres o feini prawf a rhannwyd y canlyniadau yn unigol. Roedd gan weithwyr yr hawl i apelio eu bandiau hefyd, ymarferodd 17 aelod o staff yr hawl hon, gyda 2 ohonynt yn llwyddiannus, gan roi sicrwydd i ni, yn y pen draw, fod y bandiau'n gywir.

Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ar werth am arian ym mis Ionawr/Chwefror 2018 i ofyn i'n tenantiaid beth sy'n bwysig iddynt o ran y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Rydym am hyrwyddo'r gwerth am arian rydym yn ei gynnig a gwella canfyddiad tenantiaid o hyn. Fe wnaethom gynnal cyfres o grwpiau ffocws gydag Aelodau o bob oedran a'r canlyniad oedd y 7 Rheol Aur hyn. Fe wnaethon nhw hefyd roi sylwadau ar y dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol, e.e. eitemau bach ar y cyfryngau cymdeithasol; hysbysfyrddau lleol a'n gwefan. Byddwn yn treialu hyn trwy'r haf.


Fe wnaeth ein Panel Cwynion, sy'n cynnwys 4 Aelod o'r Corff Democrataidd (3 thenant ac 1 gweithiwr) ddelio ag 8 cwyn yn 2017/18, cadarnhawyd 2 o'r rhain yn rhannol neu yn llawn, a gwrthodwyd 6 ohonynt. Uwchgyfeiriwyd 2 gŵyn i'r Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn, ond dewisodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i'r rhain.

Fe ymwelodd ein Swyddogion Tai Ardal â 1,695 o denantiaid yn 2017/18, a nodwyd 602 o achosion o dorri amodau tenantiaeth. Llwyddwyd i ddatrys 531 o'r achosion hyn drwy ymyrraeth gynnar, heb unrhyw gamau pellach. Roedd 44% o'r ymweliadau wedi arwain at roi gwybod am atgyweiriadau, sy'n gwarchod ein hasedau ac yn atal eiddo gwag cost uchel. Cynhyrchodd yr ymweliadau 68 o atgyfeiriadau cymorth newydd hefyd sy'n helpu i gynnal tenantiaethau.

Fe wnaethom gwblhau ein disodliad o'r system Rheoli Tai yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi datblygu ein system newydd yn fewnol dros y 3 blynedd diwethaf. Bu'n broses hir a chymhleth ond mae'r system newydd yn rhoi'r cwsmer yn gyntaf, gan ein galluogi i weld eu holl wybodaeth ar un sgrin fel y gallwn ateb ymholiadau yn gyflymach. Mae ein dull adrodd bellach yn gyson; mae'r system yn cydymffurfio â GDPR ac nid ydym bellach yn dibynnu ar drydydd parti i allu diweddarau'r system.

Mae 399 o denantiaid wedi elwa o'n gwasanaeth uchafu incwm wythnosol. Ar gyfartaledd, mae pob un ohonynt £19.67 ar eu hennill fesul wythnos. Mae hyn yn cyfateb i incwm gwario ychwanegol o £408,000 y flwyddyn.

Mae 21 o bensiynwyr wedi elwa o'n Hadolygiad Budd-daliadau Pensiynwyr, gan ennill incwm wythnosol ychwanegol o £115 yr wythnos ar gyfartaledd (yn bennaf o hawlio lwfans gweini). Derbyniodd nifer o bensiynwyr daliadau untro a oedd yn gyfanswm o £9,000 yn ystod y flwyddyn.



Rheol #5

Adolygu pob elfen sy'n arwain at wariant o dros £100,000 y flwyddyn

Fe wnaethom gomisiynu adolygiad o'n Strategaeth Gaffael yn 2017/18 gan Dîm Improva Caffael ar gyfer Tai. Roedd hwn yn ddarn o waith cydweithredol, yn cynnwys staff allweddol, y Corff Democrataidd a'r Bwrdd, a gafodd y cyfle i fynegi eu barn. Mabwysiadwyd y Strategaeth Gaffael ym mis Mawrth 2018 a bydd yn sicrhau ein bod yn dilyn arferion da.


Arbedodd y Swyddogion Tai Ardal £56,400 i ni wrth baratoi a rhoi 69 o hysbysiadau a chynrychioli CCM mewn 3 gwrandawriad meddiant.

Gostyngodd y gwariant blyneddol ar offer a chyfarpar i'n crefftwyr £24,000, o ganlyniad i reolaethau ychwanegol. Arbedwyd £24,000 pellach ar gostau prydlesu 19 cerbyd newydd dros y cyfnod contract o 5 mlynedd.

Daeth y contract yswiriant ar gyfer CCM i ben yn 2017/18, felly roedd angen tendr OJEU oherwydd y gwerth dan sylw. Symudom i estyniad dewisol 1 flwyddyn a mwy a rhannwyd y tendr rhwng yswiriant modur a'r yswiriant sy'n weddill. Yn gyffredinol, fe wnaethom arbed £100,000 y flwyddyn (gostyngiad o 22% mewn costau).

£24,000 gostyngiad

Mae'r gwariant blyneddol ar offer a chyfarpar i'n crefftwyr wedi gostwng £24,000 yn sgil rheolaethau ychwanegol.



Rheol #6

Byddwn bob amser yn buddsoddi yn ein cymuned leol

Fel cydfuddiannaeth, rydym yn cymryd ein Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o ddifrif. Rydym yn cynnwys buddion cymunedol yn ein contractau, lle bynnag y bo'n bosibl a disgwylwn i'n contractwyr weithio gyda ni i wella ein cymunedau. Mae gennym fframwaith contractwr sy'n cwmpasu ein holl waith atgyweirio a chynnal a chadw. Yn gyffredinol, am bob £1 a wariwyd trwy'r fframwaith, caiff cyfartaledd o £1.85 ei ail-fuddsoddi yn yr economi leol. Mae'r mwyafrif o'n contractwyr yn fusnesau lleol a thrwy ein contractau maent wedi sicrhau bod y canlynol wedi'u cyflawni yn 2017/18:-

- Wedi cyflogi/cadw 53 o weithwyr contract parhaol/cyfnod penodol.
- Wedi cefnogi 11 lleoliad gwaith a phrentisiaid.

- Cafodd 46 o unigolion gyfleoedd hyfforddi.
- Rhoddodd Jasonic 15 saff allweddol i denantiaid diamddiffyn gyda gostyngiad o £228.
- Rhoddodd y Bell Group £200 i'n helusen Aelodau, MIND Merthyr, yn gyfnewid am ddefnyddio ystafell gyfarfod.
- Peintiodd y Bell Group y lolfâ gymunedol yn Rhydfach fel budd cymunedol, gan arbed £1,000 i ni.
- Gosododd Colin Laver system wresogi newydd yng Nghlwb Ieuencid TAG, a oedd yn gyfystyr â disgownt o £3,000.
- O ran cyfraniadau eraill mewn nwyddau, cyfrannodd ein contractwyr £7,625 e.e. deunyddiau/offer dros ben a chyfarpar i adeiladu set theatr cynrychiadau amatur.



Mae Grŵp Sefydliad Gellideg wedi'i gontractio i gynnal a chadw tiroedd ar stad Gellideg a chlirio gerddi eiddo gwag. Mae'r contract hwn wedi golygu cyflogaeth i 4 o bobl; hyfforddiant ar gyfer 3 o bobl, gan gynnwys un unigolyn sy'n methu clywed. Cefnogodd Grŵp Sefydliad Gellideg yr unigolyn hwn i gael cymhorthion clyw wedi'u huwchraddio. Fe wnaethant recriwtio un gwirfoddolwr hirdymor, sy'n denant CCM, sydd bellach wedi symud ymlaen i swydd gyflogedig yn 2018/19. Yn ogystal â hynny, cafodd gwirfoddolwyr tymor byr eu recriwtio hefyd.

Rydym wedi cyflwyno mwy o gystadleuaeth rhwng ein contractwyr dewisol trwy gynnal ceisiadau bach ar gyfer pecynnau gwaith. Mae hyn wedi sicrhau arbedion o tua £23,000.

Sicrhaodd ein contract gyda Jehu ar gyfer datblygiad y brif swyddfa y buddion cymunedol canlynol:-

- Defnyddiwyd cronfa £10,000 ar gyfer buddion cymunedol i gefnogi un o'n prentisiaid am gyfnod o 12 wythnos ar y safle, gyda £4,500 o'r gronfa'n cael ei defnyddio i adnewyddu'r cyfleuster Gemau Aml-ddefnydd ar Heol Lansbury, Gellideg.

- Sicrhawyd 25 wythnos o leoliadau prentis gan Y Prentis.
- Cynigiodd Jehu 10 wythnos o waith ar y safle i un o brentisiaid CCM.
- Roedd lleoliadau gwaith eraill a gynigiwyd yn cynnwys 3 wythnos o waith llafur.

Roedd buddion cymunedol eraill yn cynnwys:-

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth gyrwyr am ddim gan Wasanaethau Tân ac Achub De Cymru ar gyfer ein holl weithredwyr a Goruchwylwyr a Rheolwyr Cartrefi ac Eiddo, gan arbed tua £2,250.
- Sefydlu clwb swyddi yng Nghanolfan Gymunedol Trelewis mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad awgrymiadau cartref defnyddiol yn ystod y flwyddyn (Ebrill a Mehefin). Fe wnaethom roi pecynnau peintio allan a roddwyd gan Rabarts a phecynnau glanhau a roddwyd gan Jasonic.

Rydym yn parhau i gynnig buddion Aelodau trwy ein Cydfuddiannaeth fel a ganlyn:-

- Disgowntiau staff a thenantiaid o amrywiaeth o fusnesau lleol, gan gynnwys bwyd, beiciau, atgyweiriadau/gwasanaethu ceir/MOTs, teiars, aelodaeth campfa,

salonau gwallt, dodrefn, offer domestig, deunyddiau adeiladu, gwisgoedd, blodau, golchi a thrin cŵn, ffotograffau a phaent.

- Gall Aelodau fynd i bob math o ddigwyddiadau a gweithgareddau chwaraeon ar gyfraddau gostyngol, e.e.: gemau cartref tîm Pêl-droed Tref Merthyr a gwersylloedd hwyl, Parkwood Outdoors Dolygaer, rownd ragarweiniol o golff yng Nghlwb Golff Merthyr Tudful a Rock UK (Treharris).

At ei gilydd, gwariodd CCM £12,426,580 ym Merthyr Tudful ynghyd â £4,788,330 yng Nghymru – y cyfan o fudd i'n heconomi leol.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Fe wnaethom roi £1,928.30 i elusen ein Haelodau, Mind Merthyr a'r Cymoedd yn 2017/18.

Fe wnaethom roi £49,500 i Grŵp Sefydliad Gellideg fel cyfraniad terfynol i'w Canolfan Les.

Dyfarnodd y Panel Grantiau a Nawdd £31,300 i grwpiau lleol. Mae'r grwpiau hyn yn darparu rhwydweithiau a swyddogaethau cymunedol pwysig na fyddent fel arall yn cael eu hariannu o bosibl.

Yn ychwanegol at hyn, rhoddodd y Bwrdd a'r Panel Grantiau a Nawdd £10,800 i Fanc Bwyd Merthyr Cynon ac annog sefydliadau lleol eraill i gyfrannu, gan sicrhau cyfraniadau ychwanegol o £2,000 gan Gymdeithas Tai Cynon Taf; £5,000 gan CBS Merthyr Tudful a £2,000 gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful.

Rydym wedi cynnal ystod o weithgareddau yn ein cynlluniau â lloches i fynd i'r afael â materion fel unigrwydd, dementia, byw'n iach a lles corfforol a meddyliol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bingo, boreau coffi, gwau, cwisiau, celf a chrefft, dawnio, cwrlo, coginio, ymarfer corff a threfnu profion llygad am ddim yn y cartref.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn wythnosol gyda 6 i 20 o denantiaid ym mhob un sesiwn. Cymerodd oddeutu 86 o denantiaid ran yn y gweithgareddau hyn bob mis.



**Rhoddwyd
£10,800**

i Fanc Bwyd Merthyr Cynon, ac fe wnaethom annog mudiadau lleol eraill i gyfrannu.



Rheol #7

Byddwn bob amser yn datblygu staff mewnol, yn ystyried cynlluniau olyniaeth, ac yn cynnig prentisiaethau a lleoliadau gwaith

- **Cynigwyd 16 lleoliad gwaith yn 2017/18.**

O'r rhain, roedd 4 wedi diogelu contractau cyfnod penodol pellach gyda CCM.

- **Fe wnaethom benodi ein prentis benywaidd cyntaf yn 2017/18.** Mae hi'n hyfforddi i fod yn friciwr.

- **Fe wnaethom benodi 9 o'n crefftwyr presennol i fod yn weithwyr amlsgiliau, ac mae pob un ohonynt wrthi'n cyflawni'r cymhwyster hwn ar hyn o bryd.** Felly, er eu bod yn gymwys ar gyfer eu crefft bresennol, bydd ganddynt gymhwyster lefel 2 mewn dwy grefft arall, a gallwn ni ddefnyddio'u sgiliau yn fwy effeithlon ac effeithiol.

- **Cefnogwyd 9 prentis gan CCM.** Roedd 3 wedi cymhwyso yn 2017/18 a chynigiwyd contractau parhaol iddynt.

- **Dyrchafwyd 9 gweithiwr** yn ystod y flwyddyn a chwblhaodd 12 eu hyfforddiant proffesiynol yn eu meysydd penodol.


- **Mae ein prosiect RISE wedi cyfeirio 78 o denantiaid** at wybodaeth am gyflogaeth.



Gwerth am Arian Cerdyn Sgorio Cytbwys

Mae'r Corff Democrataidd wedi adolygu'r ystadegau yn y Cerdyn Sgorio Cytbwys ac maent wedi dod i'r casgliad bod ein perfformiad mewn meysydd allweddol o'n busnes yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Er enghraifft, rydym wedi gwneud atgyweiriadau yn gyflymach na'r llynedd, mae ein hamser ail-osod wedi gwella, ac mae mwy o atgyweiriadau yn cael eu gwneud yn iawn y tro cyntaf. Mae'r maes sydd heb wella yn ymwneud â chanfyddiad tenantiaid o'n gwasanaethau, gyda llai o foddhad yn fwy amlwg o ran ansawdd y cartref a rhent yn werth am arian. Rydym yn siomedig gyda hyn ac rydym wedi cynnwys ein Haelodau wrth benderfynu pa wybodaeth yr hoffent glywed amdani trwy ein Rheolau Aur ar gyfer Gwerth am Arian.

Rydym yn anelu at wella ar draws pob maes yn y Cerdyn Sgorio Cytbwys, yn enwedig lle rydym yn colli incwm neu wasanaethau i mae gwasanaethau yn is na'r disgwyl.



			2015/16				2016/17			2017/18			Nodiadau ar Berfformiad 2017/18	
			DP	Bl. ar ôl bl.	HouseMark (cyffredinol)	HouseMark (Cymru)	DP	Bl. ar ôl bl.	HouseMark (Grŵp Cymheiriaid)	Targed	DP	Bl. ar ôl bl.		
Effeithlonrwydd	DPA Mewnol	Canran rhent/tâl gwasanaeth a gesglir	96.70%	↑	Amh.	Amh.	96.37%	↓	Amh.	96.50%	96.06%	↓	Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol ynghyd â rhywfaint o absenoldeb oherwydd salwch yn y Tim Incwm wedi cael effaith andwyol ar gyfraddau casglu, er mai gostyngiad cymharol fach sydd mewn perfformiad.	
	DPA Mewnol	Amser ail-osod cyfartalog	72.00	↑	4ydd chwarter	4ydd chwarter	42.52	↑	4ydd chwarter	35	41.59	↑	Perfformiad ychydig yn well flwyddyn ar ôl blwyddyn er gwaethaf cael mwy o eiddo gwag yn 2017/18.	
	DPA Mewnol	Canran atgyweiriadau a gwblhawyd ar yr ymweliad cyntaf	96.60%	Amh.	chwartert 1af	chwartert 1af	96.61%	↑	2ail chwartert	95.00%	99.00%	↑		
	DPA Mewnol	Diwrnodau ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau	32.80	↓	4ydd chwartert	4ydd chwartert	32.80	→	4ydd chwartert	Amh.	19.31	↑	Roedd y gwaith a gynlluniwyd yn cael ei gynnwys yn wreiddiol gydag atgyweiriadau ymatebol, newidiwyd hyn yn 2017/18.	
Economi	Housemark	Cost fesul eiddo o waith Mawr	£ 2,106.48	↑	4ydd chwartert	4ydd chwartert	£1,832.86	↑	4ydd chwartert	Amh.			Dim gwybodaeth am hyn ar gyfer 2017/18 hyd yma, bydd hyn ar gael yn Chwartert 3 o 2017/18 gan Housemark. Byddem yn disgwyl i'r gwariant fesul eiddo leihau yn unol â'n rhaglen gyfalaf.	
	Housemark	Cyfartaledd ôl-ddyledion rhent Dyledion Drwg fesul eiddo	£175.16	↓	4ydd chwartert	3ydd chwartert	£184.96	↓	4ydd chwartert	Amh.			Dim gwybodaeth am hyn ar gyfer 2017/18 hyd yma, bydd hyn ar gael yn Chwartert 3 o 2017/18 gan Housemark. Byddem yn disgwyl i hyn gynyddu yn unol â'n hól-ddyledion cynyddol.	
	DPA Mewnol	Rhent fesul uned tai cymdeithasol	£ 72.19	↑	Amh.	Amh.	£75.10	↑	Amh.	£78.74	£79.14	↑	Disgwylir y cynnydd hwn oherwydd y cynnydd rhent arweiniol a chydgyfeiriant â rhent targed.	
	DPA Mewnol	Canran colli rhent o eiddo gwag	2.00%	↑	4ydd chwartert	4ydd chwartert	0.89%	↑	3ydd chwartert	1.25%	0.98%	↓	Mae hyn yn unol â'n cynnydd mewn niferoedd eiddo gwag. Mae perfformiad wedi sefydlogi.	
Effeithiolrwydd ac Ecwiti	STAR	Bodddhad cyffredinol tenantiaid	83.8%	↑	4ydd chwartert	4ydd chwartert	84.99%	↑	4ydd chwartert	87%	85%	↑	Roedd canlyniadau arolwg STAR yn bositif ar gyfer bodddhad cyffredinol gyda chynnydd o 1.8% ers i ni gynnal yr ymarfer hwn yn 2015/16.	
	STAR	Bodddhad gydag ansawdd y cartref	82.30%	↑	4ydd chwartert	Amh.	83.86%	↑	4ydd chwartert	Amh.	81%	↓	Yn siomedig, mae hyn wedi gostwng o 1.3% ers arolwg 2016/17. Un theori yw bod disgwyliadau'r tenantiaid yn tyfu unwaith y bydd eu cartrefi'n cyrraedd SATC.	
	STAR	Canran bodddhad gydag atgyweiriadau	75.20%	Amh.	4ydd chwartert	4ydd chwartert	77.02%	↑	4ydd chwartert	Amh.	75.00%	↓	Bu gostyngiad bach mewn bodddhad o 0.2% ers yr arolwg STAR diwethaf. Mae ein harolygon mewnol yn datgelu cyfradd bodddhad llawer uwch gan denantiaid sydd wedi profi'r gwasanaeth atgyweirio yn ddiweddar. Bydd y Corff Democrataidd yn cynnal ymarfer craffu ar y gwasanaeth hwn.	
	STAR	% yn fodlon gyda rhent/taliadau gwasanaeth sy'n cynrychioli Gwerth am Arian	80.20%	Amh.	4ydd chwartert	4ydd chwartert	81.22%	↑	4ydd chwartert	Amh.	77.00%	↓	Roedd y canlyniad hwn yn siomedig iawn ac fe'n harweiniodd i redeg grwpiau ffocws ar Werth am Arian a gweithio gydag Aelodau a'r Corff Democrataidd i ddatblygu Yfory Cryf a'r 7 Rheol Aur ar gyfer Gwerth am Arian.	
	STAR	Canran yn fodlon gyda chymdogaeth	86.20%	Amh.	2ail chwartert	chwartert 1af	87.14%	↑	2ail chwartert	Amh.	86.00%	↓	Bu gostyngiad bach mewn bodddhad o 0.2% ers yr arolwg STAR diwethaf. Mae ein harolygon mewnol yn datgelu cyfradd bodddhad llawer uwch gan denantiaid sydd wedi profi'r gwasanaeth atgyweirio yn ddiweddar. Bydd y Corff Democrataidd yn cynnal ymarfer craffu ar y gwasanaeth hwn.	
	DPA Mewnol	% pobl ddiamddiffyn yn gallu byw yn annibynnol	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	48.90%	Amh.	Mae hwn yn fesur newydd ac felly nid oes unrhyw ddata cymharol. Mae hwn yn faes hynod o anodd o'n gwaith gyda'r mwyafrif o denantiaethau'n methu oherwydd caethiwed, iechyd meddwl ac anawsterau dysgu.	
	DPA Mewnol	Nifer y buddiolwyr uniongyrchol o weithgaredd buddsoddiad cymunedol	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	35	Amh.	Amh.	Amh.	117	↑	Cafwyd llawer mwy o dderbynwyr uniongyrchol o ran hyfforddiant a chyflogaeth.	
Nifer yr anheddau ar ddiwedd y flwyddyn			4,182				4,160			4,131				

